Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlviii. CHWEFROR, 1948. Rhif 2.

Gwneud y Gorau o'r Gwaethaf.

Gan y Parchedig John C. Ballantyne, M.A.

Dilynai artist ei orchwyl yn ucheldiroedd yr Alban. Cychwynnodd ar daith i gyfeiriad ei fan ffafriol, ond ar y ffordd digwyddodd fwrw glaw mân. Ceisiodd yntau gysgod dan bont fechan yn y gobaith y byddai'r tywydd yn gwella ; ond yn lle hynny aeth i fwrw yn waeth, ac ym mhen tipyn, yn ddyn wedi ei drechu, gafaelodd yn ei glwyd-ddarluniau, ei gynfas, a'i fag i fynd gartref i'w fwthyn. Yr oedd yn anobeithiol yn awr, a'r dydd wedi ei golli. Ond pan oedd ar ymadael â'r bont gwelodd olygfa o brydferthwch mawr, a bwa'r bont fel ffram iddo. Felly arosodd, a phaentiodd y darlun. Yng nghwrs ymgom rai blynyddoedd yn ddiweddarach dywedodd wrthyf mai dyma'r pictiwr gorau a wnaeth erioed. Pan oedd pethau'n y man gwaethaf, gwnaeth yntau ei orau. Gwnaeth y gorau o'r gwaethaf !

Yr oedd dyn arall yng ngharchar. Ei awyddfryd oedd pregethu, ond cedwid ef yn rhwym yng ngharchar am rai blynyddoedd. Dywedodd wrtho'i hun, "Rhaid i mi draethu fy nghenadwri i'r byd !" Ac o'r pulpud rhyfedd hwnnw pregethodd ei bregeth gyda'i ysgrifbin. Dywedir wrthyf gan y llyfrwerthwyr fod *Taith y Pererin*, a ysgrifennwyd ym myfyrgell waela'r byd, yn parhau yn un o'r llyfrau y mae mwyaf o alw amdanynt.

Yn y dyddiau hyn sialensir chwi, dro ar ôl tro, i wneud eich rhan yng ngwaith mawreddog yr adgyweirio. Yn awr gellir yn rhwydd godi adeilad gwych os bydd y nwyddau'n dda, ond pe gallem ni ddysgu'n ychwanegol sut i gymryd nwyddau diffygiol, o radd isel, a chyflyrau "amhosibl," ac o'r rhain greu y *gorau*, rhoddai hynny wedd arall ar bethau, rhoddai obaith newydd i fyd dryslyd, cychwynai nentydd newydd redeg o'r bryniau, gan sisial-ganu, "Beth sydd dda a fydd dda, gydag ychwanegiad o ddaioni, oherwydd drwg."

Ffrindiau, pwy bynnag ydych, yr wyf am eich llongyfarch, oherwydd fel bodau dynol doniwyd chwi, trwy ras Duw, â'r gallu creadigol arbennig hwn. Yn llythrennol gallwch wneud y gorau o'r gwaethaf.

Chwi, yn yr eglwysi, yn yr ysgolion, yn y clybiau, yn y cymdeithasau, ac yn eich cartrefi, oni wyddoch chwi mai teml Dduw ydych a bod y Creawdwr, ysbryd Duw, yn trigo ynoch chwi?

Dechreuwn gydag ychydig o lysieuaeth. Daeth yr hydref, ac yn fuan—yn rhy fuan i lawer un—daw'r gaeaf ar ein gwarthaf. Ond gwyr pob plentyn y daw'r gwanwyn yn ei dro, a'i dyfiant, a rhuthr ei fywyd newydd. Yna bob awr ym mhelydrau'r haul bydd y deunydd gwyrdd yn y pethau byw yn amlhau, y dail yn sugno'r awel anwel ac yn adeiladu sylwedd corff, a chyfnewidir rhyw ran o'r pridd yn gadernid bôn a gwraidd. Dyma thema ganolog yr hanes i gyd—trawsffurfio'r peth a ymddengys yn ddifywyd yn beth byw. Ac o'r dydd y dechreuodd y Gair creadigol ymdrechu â'r anrhefn a'r tywyllwch i dynnu allan drefn a goleuni, gweithredwyd yr un rhyfeddod flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac wedi cyflawni gwaith y dyddiau tywyll daw'r gwanwyn dan ganu i frasgamu'n hoenus yn groes i'r caeau, a chlywn ninnau lafar bywiog ei gân—

> Ychydig haul, ychydig law,
> A'r awel fwyn yn tonni o'r gorllewin,
> Daw melyster eto i'r coed a'r caeau,
> A gwres ym mynwes y mynydd;
> Mor unplyg y ddaear a droediwn,
> Mor fyw gan gariad â hoen ei chorff,
> Deng mil o flynyddoedd a wawriodd, ac a ddiflannodd,
> Ond erys yr hud yr un.

Gallwn olrhain yr un hud yn ein cyrff. Gallwn ddadansoddi ein bwyd a'i archwilio mewn ugain o ffyrdd, ond ynom ni fe'i trawsffurfir. Dywedodd Walter de la Mare bopeth am hyn wrth y plant, a galwodd ei rigwm yn Miss T.—enw rhyw ddynes neilltuol.

> "It's a very odd thing—
> As odd as can be—
> That whatever Miss T. eats
> Turns into Miss T.
> Porridge and apples,
> Mince, muffins, and mutton,
> Jam, junket, jumbles,—
> Not a rap, not a button
> It matters; the moment
> They're out of her plate,

Though shared by Miss Butcher
And sour Miss Bate ;
Tiny and cheerful,
As neat as can be,
Whatever Miss T. eats
Turns into Miss T."

Newidir y difywyd yn gorff sydd yn fyw.

Ond yr ydym ni'n fwy nag edrychwyr ar broses sy'n digwydd yn ein cyrff. Yr ydym ni ein hunain yn feddiannol ar allu i wneud y difywyd yn fyw. Y mae'r clai i'w ddelweddu wrth law, a ninnau, bob un ohonom, yn eistedd wrth ford y crochennydd. Yna wedi ffurfio'r cawg, ac wedi galw yr wrn allan o'r talp, ceir rhai a all alw i wyneb y clai ddelwau gweision a morynion yn pefrio bywyd, "yn dragwyddol fyw, yn dragwyddol ifanc," pibwyr yn tragwyddol ganu caniadau tragwyddol newydd sy'n eco yng nghalon cenedlaeth ar ôl cenhedlaeth wedi hir ddarfod moldiwr yr wrn.

Trwy eich geiriau a'ch gweithredoedd, hyd yn oed trwy eich dylanwad diarwybod, yr ydych yn arfer y gallu hwn. Cludir eich cân ar adain y gwynt, ac ym mhen amser maith wedyn ceir y gân yng nghalon ffrind, ac nid dim byd ond cân mohoni mwyach, ond dylanwad bywiol, grymusol ym meddwl rhywun arall.

Mewn llawer ffordd y cyfranogwn ni, bawb ohonom, o'r gallu creadigol. Un enghraifft, yr ydych chwi, famau, wrth adeiladu, trwy eich cariad beunyddiol ac amynedd, gymeriad dynol byw yn uno ag Ysbryd y Creawdwr.

Neu dyna'r bardd. I'r Groegwr gynt ystyr y gair "bardd" yw "un sy'n gwneud"—"gof cerdd." Ond y mae'n rhywbeth mwy na hynny—y mae hefyd yn gyfrannwr bywyd. Ymddengys y geiriau a ddefnyddia yn bethau marw, fel "arnaf," "yr," "fy," "eisiau," "bugail." Ond yn nistyll-lestr ei feddwl y mae'r bardd yn eu cyfuno, a dont yn fyw gyda gallu i gyfrannu bywyd. "Yr Arglwydd yw fy mugail." Nid myfi yw'r unig un a welodd ddylanwad anniflan y geiriau hyn sy'n dod ar draws y byd ac i lawr y canrifoedd o law rhyw Salmydd o Balestina.

Neu'r arlunydd. Cymer ef bethau marw fel llinellau union a llinellau crymion a defnyddiau lliw difywyd o'r ddaear. Yna y mae'n eu cyfuno ac yn eu cynysgaeddu â'r gallu i ddeffro teimladau dynion a'u breuddwydion.

Dyna'r cerddor. Gwrandewch ar Robert Browning—

". . . I know not if, save in this, such a gift be allowed to man
That out of three sounds he frame, not a fourth sound, but a star,
Consider it well ; each tone of our scale in itself is nought ;
It is everywhere in the world—loud, soft, and all is said ;
Give it to me to use ! I mix it with two in my thought ;
And there ! Ye have heard and seen ; consider and bow the head."

Yr ydym ni i gyd yn wŷr celfyddgar, a gwelir ein celfyddyd yn hyn, fod yn rhaid i ni dderbyn cyflyrau a digwyddiadau pob dydd, pethau diflas a swrth yn fynych i'r golwg, a'u moldio'n unol â dymuniad ein calon. Ac os ydych ar ben hynny yn gelfyddydwyr dawnus, yna gwyddoch sut i gymryd yr amgylchiad caled a gwydn, hyd yn oed chwerwder methiant a gorchfygiad, a ffurfio o'r rhain ddeunydd bywiol cymeriad.

Nid yw o un diben grwgnach a chwyrnu am ein cyfyngderau presennol ; dyma'r nwyddau crai sydd gennym i greu—os ydym yn deilwng o'r ddynoliaeth y perthyhwn iddi—i greu a throsglwyddo'r drefn newydd "ddim yn llai ond yn fwy, yn well, yn brydferthach nag y'i trosglwyddwyd i ni." (Felly yr arferai bechgyn ifainc Groeg eu gwystlo eu hunain yn Agraulos, ac y mae'n sicr y gallwn ninnau hefyd godi i'r un uchelion).

Y mae tair ffordd i ddelio â chyflyrau anodd. Yn gyntaf, gallwn adael i'r amgylchiadau ein moldio ni. Nid oes fywyd yn y ffordd yna. Wedyn ceir ffordd y Stoic. Yn ôl Marcus Aurelius, "Caewn ein llygaid i lawer. Y mae gennym hawl i ochel." Yn iaith heddiw, "Dioddef dan wenu." Y mae i'r ffordd hon rai manteision. Ond y mae'r drydedd ffordd ; nid ffordd gollyngdod na ffordd y Stoic ond ffordd y Crist—y ffordd greadigol—yfed y cwpan a chael ei borthi ganddo, sugno maeth o'r profiad chwerw, ei drawsnewid yn beth byw, tyfu'n gryfach eich dynoliaeth o'i herwydd. Nid goddef eich moldio gan ryw amgylchiadau a ddel—eiddilwch y gwirionyn sy'n gwneud hynny—na sefyll yn eu hwyneb yn ddiysgog, ond hawlio oddiwrth bob un pan ddaw ryw wybodaeth newydd am ein gallu cudd (peth na ddylem eu amau ar bob cyfrif), rhyw nodwedd newydd yn ein personoliaeth, fel y gallwn gyfoethogi a mawrhau bywyd y cylch y trown ynddo.

Gellir gwneud hynny. Gwelsom wneud hynny yn fynych. Gwelsom wŷr a gwragedd yn fynych yn profi, fel y gwnaeth Paul, fod gallu Ysbryd y Creawdwr yn cyrraedd ei ddatguddiad uchaf pan fyddwn ni yn ein gwendid yn ei groesawu i ganolfan ein bôd.

Y mae'n iawn i ddynion ofyn iddynt eu hunain, ym mha fodd y gallwn ni ail-adeiladu bywyd ein cymdeithas o nwyddau sydd mor brin a chymaint ohonynt mor wael. Ond gwnaethpwyd gwaith mawr yn fynych mewn amgylchiadau cyfyng fel hyn. Nid criw o ddynion dethol a oedd gan Columbus,—dim ond dyrnaid o glebranwyr penchwiban yn gwneud Ogof Adulam o'u lle'n y llong, ac yntau mewn angen ar y pryd am ufudd-dod trylwyr. A beth am y stwff y gorfu ar Iesu weithio arno ? Bu farw un dyn allan ar y clogwyn ; dihangodd deg arall ; a Phedr—dyn o graig—a wnaeth yr holl addewidion teg, yn eu torri ac yn cefnu. Ai dyna'r deunydd yr oedd arno eisiau at ei dasc ? Ond fe'i defnyddiodd yn greadigol. Daeth yn Apostolaeth y genhadaeth Gristnogol.

Yn ein hamgylchiadau heddiw y mae cyfle rhagorol i'r gweithwyr gorau ddangos eu gwerth. Nid yw'r deunydd mor ddiaddewid â changhennau duon y coed a welsom yn ystod un gaeaf caled. Ym mha fodd y gwnaeth Natur ei gwyrthiau? Defnyddiodd law a chaddug a thywyllwch ac oerfel fel sidanau, ac ohonynt gweodd wychter brodwaith y gwanwyn.

Cwyna'r eglwysi ynghylch anghrediniaeth a meddyliau bas a materoliaeth. Sut y gallwn greu cyfoeth o'r tlodi hwn? Beth a allwn ei wneud? Y mae'r ateb yn syml. Dyma'r amser i ni ddangos yn yr eglwysi tu hwnt i bob amheuaeth allu creadigol crefydd; gwneud yr esgyrn sychion yn fyw; adnewyddu bywyd yng nghorff y byd; tyfu dail a blodau o amgylchiadau sydd i bob golwg yn farw, fel y blodyn hwnnw (Alpine Gentian) sy'n adeiladu glesni prydferthwch byw ar y graig ddiffrwyth!

Yr amseroedd yn galed? Carreg galed sy'n gwneud yr adeiladau cryfaf.

Yr amgylchiadau fel clai, yn wydn ac yn anhydrin? Oni chlywsoch? Tir cleiog yw'r gorau i dyfu rhosynnau.

Yfwn yn feunyddiol o'r dwfr "a fydd ynom yn ffynnon o ddyfroedd byw," ac fe gynyddwn ein gallu creadigol; byddwn yn gwneud rhywbeth, ac yn llawenhau yn y gwaith, ac mewn gwirionedd yn ogystal ag mewn cân byddwn yn adeiladu'r Gaersalem newydd ar dir ein gwlad.

A tinker in a prison cried,
"God! How I yearn to preach!
But my hands are weaving laces, and my thoughts
are spinning gloom."
So he wrote (three hundred years ago)
The thing he longed to teach:
Such tapestry had never come from preacher's loom;
For Bunyan wrote from roots of death
Radiant and deathless bloom!

A sculptor stands there dreaming
By wasted marble block;
(To work on such a rugged mass is surely mere caprice!)
He hacks away a prison wall,
And sets free from the rock
A shepherd lad, with sling and stone poised ready for release;
From failure, Michelangelo
Had carved a masterpiece!

A poet, spent and weary,
On a bed of pain reclines;
"No surcease now, no sleep; once more the cruel night's begun!"

He lights the candle by his bed,
And writes his "anodynes" ;
Heart-ache yields hope ; "Awake, my soul, and travel with the sun !"
Thus Bishop Ken turned suffering
To songs for everyone.

A generation on a cross
Drinks bitterness of rue ;
It feels the nails in hands and feet, its body racked with pain.
But failure, waste, and weariness
Challenge the heart anew,
For faith can wear a crown of thorns, and yet in triumph reign.
We, even we can turn defeat
Into victorious gain !

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A.

(*Parhad*).

Rhaid i'r ysgrif hon eto, 'rwy'n ofni, fod yn bennaf, os nad yn hollol, ynghylch personau a fu ganddynt yn ystod y blynyddoedd 1910—1914 (ac y sydd gan rai o honynt o hyd) gysylltiad agos â'r Achos Bach. Ac, yn gyntaf, ychydig eiriau am deulu (yn ystyr eangaf y gair) a fu ar un adeg gyda'r mwyaf enwog yn y cylch Undodaidd ac y sydd i raddau felly o hyd, sef teulu Gwilym Marles.

Pan ddeuthum i yn ôl i Aberystwyth yn 1910 'roedd Mrs. Marles Thomas ynghyd ag un o'r merched, Miss May, yn cadw ysgol i ferched yn *South Marine Terrace*, ond am ryw reswm neu'i gilydd anaml iawn y mynychent yr addoliad yng nghapel bach Heol Newydd. Yn anffodus, ni ffynnai'r teimladau gorau pryd hyn rhwng y Parch. G. Eyre Evans â Miss May Marles Thomas, a hwyrach mai dyna'r rheswm na ddeuai hi a'i mam i'r gwasanaeth yn amlach. Gan nad beth am hynny, daeth tro ar fyd cyn hir a hynny yn bennaf, mi dybiaf, trwy ddylanwad tangnefeddus un o'i chwioryddd, Mrs. Dr. James, ar Miss May. Bu'r hen wraig farw yn fuan wedi (os nad yn wir cyn) hyn, ac wedi marw o'i mam ni fu llawer neb yn ffyddlonach i'r achos na Miss Marles Thomas. Yn naturiol, treuliai merched Gwilym Marles a'u teuluoedd ran, os nad eu gwyliau i gyd gyda'u mam a'u chwaer (ac wedi marw o'u mam, gyda'i chwaer) yn Aberystwyth, a phan ddigwyddai hynny byddent bron yn ddi-ithriad yn mynychu'r gwasanaeth. Pan ddigwyddai'r tri teulu fod yma ar yr un pryd, fel y digwyddodd ddechrau Medi, 1912, ffurfient gynulleidfa fach weddol eu hunain. Ar y Sul cyntaf

o Fedi'r flwyddyn honno, 'roedd pedair o ferched Gwilym Marles, un mab-ynghyfraith a saith o wyrion ac wyresau iddo yn bresennol, ac ar Sul, Medi 8, 'roedd y pedair merch, sef Mrs. Annie Street, Miss May Marles Thomas, Mrs. Leisa James a Mrs. Muriel Barnard, tri o'r meibion-ynghyfraith a naw o'r wyrion a'r wyresau—16 i gyd—yn yr addoliad.

Oni chamsyniaf yn ddirfawr, tua diwedd Medi neu ddechrau Hydref 1911 y daeth i'r lan i'r Coleg yma o ardal Cwrtnewydd fachgen ieuanc y sydd wedi hynny wedi gwneud enw iddo i hun fel pregethwr huawdl a grymus ac fel bardd ac emynydd o fri. Cyfeiriaf, wrth gwrs, at y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr. Fel y gwyr llawer o'n darllenwyr, mab yw Mr. Williams i'r diweddar Thomas a Rachel Williams, Gwarnant, ger Cwrtnewydd. 'Roedd ei dad yn fardd gwlad o gryn fri a thebyg iddo yntau etifeddu'r dalent hon, yn rhannol beth bynnag, oddiwrtho. Cyn dod i'r Coleg ger y Lli, athro yn ysgol Cwrtnewydd oedd Mr. Williams, ond daeth i'r lan yma gyda'r bwriad o baratoi ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd. Yn y Coleg gwnaeth ei farc yn fuan, yn enwedig ymhlith y Cymry, fel myfyriwr o allu hwnt i'r cyffredin, enillodd y gadair yn yr Eisteddfod Ryng-golegol ac ar ben tair blynedd graddiodd gydag anrhydedd yn y dosbarth blaenaf yn y Gymraeg. Trwy gydol ei gwrs yn y Coleg bu yn ffyddlon iawn i'w gyd-gynulliad yn y Capel Bach, er mai anaml iawn y pregethai inni, am fod ei amser yn brin a gwaith y Coleg yn drwm.

Tua dechrau'r flwyddyn 1913 daeth i ymgartrefu yma ddau sydd oddiar hynny hyd yn awr wedi bod yn anad neb yn gefnogwyr selog a sylweddol i'r mudiad Undodaidd yn Aberystwyth, sef Mr. a Mrs. W. S. Jones, cyn-brifathro Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, a'i briod. Fel y mae yn wybyddus i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd, mab yw Mr. Jones i'r diweddar Barch. a Mrs. R. C. Jones, Llanbedr. Cyn dyfod o honynt i fyw i Aberystwyth 'roedd ef yn athro cynorthwyol i'r diweddar Syr William Somerville yn Adran Amaethyddol Prifysgol Rhydychen. Yn 1912 cafodd ei ddewis gan y Gweinidog Amaeth yn Arolygydd Addysg Amaethyddol yng Nghymru a Mynwy ac yn Ysgrifennydd Cyngor Amaethyddol Cymru, a dyna paham y darfu iddo ef a Mrs. Jones symud i Aberystwyth. Bu yn dal y swydd hon am dros bedair blynedd ar hugain, a dim ond rheol y Llywodraeth ynglyn ag ymddeol a'i gorfododd i'w rhoi i fyny yn 1937. Yn fuan wedi hynny dewiswyd ef yn Brifathro Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, lle y bu hyd 1945. Ond hyd yn oed tra yr oeddynt yno a galw arnynt i helpu Capel Parcyfelfet nid anghofiodd Mr. a Mrs. Jones eu cariad cyntaf yn Aberystwyth a chyfrannent yn hael bob blwyddyn tuag at yr achos yma. Ac yn awr ers tua dwy flynedd maent yn ôl yn Llandre o fewn cyrraedd i gapel bach Heol Newydd unwaith eto ac er gwaethaf eu hoedran mor ffyddlon ag erioed yn eu cyd-gynulliad.

Testun Od.

Gan Mrs. A. Jones Rees, Llanbedr.

Efallai y bydd yn amheuthun i'r Ymofynnydd gael "testun od" ar ei dudalennau ar ddechrau ei ail ganrif.

Er mai cystadlu rhwng y graddedigion a gymer le yn bennaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol, eto bydd ambell destun yn awchu dychymyg y diradd i geisio llunio rhyw fath o ysgrif arno, nid er mwyn cystadlu ond yn hytrach fodloni'r meddwl.

Dewisodd pwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwethaf dri testun Ysgrif fer,—"Gwarchod, Mapiau, a Gwrychoedd," y cystadleuydd i ddewis ei destun. Ar yr olwg gyntaf, ymddangosai'r tri yn lled ddiramant, ond o fyfyrio uwch eu pennau, gwelid eu bod yn llawn diddordeb.

Gwrychoedd a'm gogleisiodd i yn bennaf, ac ni allwn ffrwyno fy meddwl rhag ymgodymu â'r pwnc. Gwrthrychau cynefin i lygad y teithiwr mewn ardal wledig ydyw'r gwrychoedd. Y maent mor gyffredin fel na wna neb fawr sylw ohonynt mwy na phe baent wedi eu llunio yr un pryd â'r ddaear ei hun. Gwir yw'r dywediad fod cynefindra yn magu diystyrrwch. Nid oes eisiau i ni ond darllain ein Beibl cyn gweld nad oedd y fath beth a gwrych yn bod yng Ngwlad Canan yn amser Iesu. O ganlyniad, oes y bugeiliaid oedd honno. Ffrwyth datblygiad ydyw'r gwrych. Gwelwyd mai gwastraff ar amser a chyfoeth oedd cadw dynion i fugeilio'r preiddiau pan wnai gwrychoedd y tro. Dichon fod huriau y bugeiliaid yn codi ac yn mynd yn rhy uchel i'r ffermwr i'w talu !

I ni heddiw, golygfa hynod iawn fuasai fferm heb wrych ar ei thir yn unman. Y gwrychoedd sy'n rhoi ffurf i'r meysydd ac amrywiaeth i'r olygfa. Hwy ydyw bugeiliaid y preiddiau a chestyll yr adar ; cysgodant y praidd rhag oerwynt y gaeaf a gwres yr haul yn yr haf. Cysgodant hefyd yr heolydd er budd a chysur y teithiwr, ac y maent yn addurn i'r amgylchynedd yn gyffredinol. Rhydd y gwrych dŵf i goed mawr heb ymyrryd a chynnyrch y maes ac ymborth yr anifeiliaid, ac mewn amser torrir hwy i lawr, a mawr yw eu gwerth fel tanwydd.

Lluniwyd y gwrych o bridd y ddaear fel ninnau. Ni ddywed neb nad oes ynddo fywyd, ond nid yw'n debygol y medd enaid a rheswm. Y mae'n agored i ymddatod, naill ai trwy henaint neu ymosodiad y ddrycin neu ryw anifail afreolus. Ond er iddo syrthio yn ôl i'r pridd, gall dwylaw dynol ei godi ar ei draed drachefn, yr hyn ni ellir ei wneud â'r corff dynol.

Pan chwyth y gwynt yn ei anterth, caria lawer o hadau o fan i fan, yn eu plith bydd hadau llysiau a llwyni gwenwynig. Disgyn llawer ohonynt ar y gwrychoedd. Derbynaint hwy y da a'r drwg, a

maethant hwy i'w llawn dŵf heb wahaniaethu rhyngddynt. Hyderwn fod dyn yn wahanol yn hyn o beth. Cawsom ni reswm a synnwyr cyffredin, a disgwylir arnom dderbyn a meithrin yr hyn sydd dda a gwrthod y drwg. Bydd y llysiau a'r llwyni gwenwynig yn beryglus iawn i wartheg ac i blant hefyd. Bu'r gwrych yn achos gofid i mi weithiau pan oeddem blentyn ; ni allwn wrthsefyll y demtasiwn o'i ddringo er cyrraedd cnau ac eirin duon bach a ffrwythau eraill, a thrwy hynny yn rhwygo fy nillad yn y drain. Yna byddai'n rhaid dioddef y canlyniadau ar ôl mynd adref. Fe'm cyfiawnhawn fy hun trwy ddweud mai ar y drain oedd y bai.

Diolch am wrych yr ardd, y fath amddiffynfa ydyw i'r llecyn hoff. Bendithia ninnau a theimlad o dangnefedd a rhyddid wrth rhodio ei llwybrau tawel.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

Safon I. Dan 9 oed. *Ar lafar.*
HANES IESU GRIST.
(*a*) Llyfryn Newydd y Parchedig T. Oswald Williams, *Iesu Grist*, ei hanes i blant dan naw oed.
(*b*) *Yr Holwyddoreg* gan y Parchedig David Evans. Rhan I. Gwaith yr Ail Flwyddyn.
(*c*) Dysger Emyn 476 yn y *Perlau Moliant.*

Safon II. O 9 hyd 12 oed. *Ar lafar neu yn ysgrifenedig.*
IOAN FEDYDDIWR.
Gweler llawlyfr yr Ysgol Sul, *Prif Gymeriadau y Testament Newydd*, tudalennau 10—12.
Dysger hefyd waith y Safon Cyntaf, a dysger emyn 466 yn y *Perlau Moliant.*

Safon III. O 12 oed i fyny. *Ar lafar neu yn ysgrifenedig.*
IOAN FEDYDDIWR.
PAUL.
Gweler llawlyfr yr Ysgol Sul, *Prif Gymeriadau y Testament Newydd*, tudalennau 10—12 ; 22—29.
Dysger emyn 184 yn y *Perlau Moliant.* Dysger hefyd ychydig o hanes yr awdur ac achlysur cyfansoddi'r emyn.

Cynhelir yr Arholiad dydd Sadwrn, Mai 1, 1948.

Bydd y Trysorydd, Miss Nellie Jones, Llwynonn, New Street, Lampeter, yn ddiolchgar am gyfraniadau'r ysgolion Sul mor fuan ag sy bosibl.

S. A. Evans, *Ysgrifennydd.*

IESU GRIST.

(Ei hanes i blant dan naw oed).

"Bu Iesu Grist yn blentyn bach
Heb fedru torri gair,
A thlws gan engyl oedd efe
A thlysach fyth gan Fair :
Pa lety oedd yn ddigon da
I dderbyn un mor fawr,
Ond preseb gafodd gan y byd
I roi ei ben i lawr."

Y mae'n 1948 eleni, a dyna oed Iesu Grist. Gŵyr pob plentyn am Iesu, ac am y Nadolig. Dydd pen ei flwydd yw. Ei enw yw Iesu, a'i deitl yw Crist neu Feseia. Y mae dynion mawr yn y byd fel Moses, Paul, Petr, Ioan, Sant Francis, Dewi Sant, Gandhi, Tolstoy ac eraill. Y *mwyaf* a'r *goreu* yw *Iesu.* Y mae mor fawr a da fel nad oes gennym enw digon da iddo. Fe'i galwn yn Arglwydd a Mab Duw. Y mae arno enwau eraill fel proffwyd, sant, Meseia a Mab y Dyn. Dywed pob enw ei fod yn fawr—*y mwyaf* o bawb.

Iddew oedd Iesu. Dyna enw pobl gwlad Canan. Gwlad fach debig i Gymru yw Canan. Saif yn Asia, pen draw Moi y Canoldir. Yr afon fwyaf yw'r Iorddonen. Y mae mynyddoedd uchel yno : Hermon, Carmel, Sinai, Moriah, a Mynydd yr Olewydd. Y prif lynnoedd yw Mor Galilea, Dyfroedd Merom, a'r Mor Marw. Y brif dref yw Caersalem. Yno oedd y deml. Yr oedd pedair rhan i'r wlad : Galilea, Iwdea, Samaria a Pherea. Ffermwyr a bugeiliaid, pysgotwyr a chrefftwyr gwlad oedd y bobl.

Ganwyd Iesu yn Nazareth neu Fethlehem. Ei dad a'i fam oedd Joseff a Mair. Saer coed oedd ei dad. Yr oedd ganddo frodyr a chwiorydd (Iago, Joses, Simon a Judas). Ceir hanes ei fywyd yn y Beibl. Dyma lyfr mwyaf y byd. Ynddo ceir hanes dynion da. Dysg i ni ffordd Duw o fyw. Fe'i gelwir yn Air Duw a Gair y Bywyd. Y mae dau hanes tlws am Iesu ym Matthew a Luc.

Ym Matthew mae'r doethion a'r seren
Yn dod at lety Mair ;
Dwed Luc am fugeiliaid ac engyl
Yn mynd at Fab y Saer.

Ychydig o'i hanes yn blentyn sydd ar gael. Yr oedd fel pob plentyn yn hoff o chwarae gan helpu'i fam. Carai fynd i'r synagog (tŷ cwrdd). Aeth i Gaersalem ar yr wyl yn ddeuddeg oed.

"Bu Iesu Grist yn blentyn bach
Fel plant ei oes a'i wlad ;
A'i hyfryd waith oedd mynd i'r wyl
A charu tŷ ei dad."

Ni wyddom ei hanes wedyn dro. Digon tebyg ei fod yn gweithio gwaith saer gartref. Tua deg ar hugain oed dechreuodd bregethu. Ei bregeth fawr oedd y Bregeth ar y Mynydd. Ynddi dywed pwy sy'n hapus neu'n wyn eu byd. Rhoes batrwm o weddi inni. Gŵyr pob plentyn y weddi hon—Gweddi'r Arglwydd. Bedyddiwyd Iesu gan Ioan yn yr Iorddonen. Aeth sôn amdano drwy'r wlad. Yr oedd ganddo neges newydd. Ni wrandawai'r bobl fawr (Y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion) arno. Ai'r werin ar ei ôl. Yr oedd yr Iddew dan Rufain yr adeg hon. Disgwyliai *rywun* i'w ryddhau. Ei enw arno oedd Meseia. Ni ddaeth Iesu fel y'i disgwylid. Ni chredid ynddo o'r herwydd. Gelwir ef y Meseia, y Bugail Da, Y Meddyg Da, Goleuni y Byd a Bara y Bywyd.

Rhoes Iesu ei neges mewn storiau. Ei enw ef ar stori oedd dameg. Ei brif storiau yw Dameg yr Heuwr, yr Had Mwstard, Y Samariad Caredig, y Ddafad Goll, y Darn Arian a'r Mab Afradlon (ofer).

Soniai Iesu am Deyrnas Dduw. Nid rywle draw mohoni. Y mae yma'n awr ac ynom. Ynddi nid oes neb yn gâs na drwg. Pan garo pawb ei gilydd, bydd wedi dod. Daeth Iesu yn rhy gynnar. Nid oedd y byd yn barod iddo. Yr oedd ei safon yn rhy uchel a newydd. Gyda Moses ' llygad am lygad a dant am ddant ' ydoedd. Yr oedd hon yn well na thalu hyd yr eithaf. Daeth Iesu a neges newydd : "maddeu cam a thalu da am ddrwg a charu'n gilydd." Ni fynnid gynt ei efengyl. Ni fynnir mohoni *heddiw*. Rhaid oedd ei ladd, ac yntau ddim ond deg-ar-hugain oed. Dyna wna'r byd â'i ddynion mawr—eu lladd heddiw a'u haddoli yfory. Medrid lladd Iesu, ond y mae'i neges yn byw. Y mae Iesu hefyd yn fyw, ac yn dweyd wrth bob plentyn am garu'n gilydd, maddau cam, peidio talu'n ôl, talu da am ddrwg, a gwneud i arall fel y carem i arall wneud i ni. Dyna yw Teyrnas Dduw. Dyna yw Efengyl Iesu. Dyna'r ffordd i fod yn ddisgybl bach iddo.

"Un da oedd Iesu'n ddeuddeg oed
A da pan aeth yn fawr,
Ond croesbren gafodd gan y byd
I roi ei ben i lawr."

[Dysger Emyn 476 yn y Perlau Moliant].

T.O.W.

Arholiad 1947.

Ar awgrym yr arholwyr yn rhifyn Ionawr argraffir cwestiynau Arholiad 1947. Cymrwn ninnau'r cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu diddordeb a'u llafur.

Golygydd.

SAFON II.

AMSER—AWR A HANNER.

Atebwch y canlynol i gyd :—

1. Beth oedd enw tad a mam Joseff?
2. Paham y cafodd Joseff siaced fraith gan ei dad?
3. Beth oedd ystyr breuddwydion Joseff?
4. Ym mha le yr oedd brodyr Joseff yn bugeilio?
5. Pa un o'r brodyr oedd am daflu Joseff i'r pydew a phaham?
6. Beth a ddigwyddodd i Joseff wedi iddo gael ei daflu i'r pydew?
7. Beth wnaeth y brodyr â'r siaced fraith?
8. Beth oedd Pharo?
9. Beth a freuddwydiodd Pharo?
10. Beth oedd ystyr breuddwydion Pharo?
11. Pa swydd a gafodd Joseff gan Pharo?
12. Beth wnaeth Joseff yn ystod y saith mlynedd o lawnder?
13. A oedd newyn yn rhyw wlad arall heblaw'r Aifft?
14. Pwy aeth i'r Aifft i brynu ŷd?
15. Ym mha ffordd yr oedd Joseff yn ialu da am ddrwg?
16. Paham y rhoddodd Joseff y cwpan arian yn sach Benjamin?
17. Pa wersi a ddysgir o ddarllen hanes Joseff?
18. Ym mha le y ceir hanes Moses?
19. Ym mha ffordd yr oedd Moses fel Arthur?
20. Paham y dywedwn fod Moses fel Hywel Dda?
21. Beth yw "Nodwydd Cleopatra"?
22. A oedd pobol yn medru ysgrifennu cyn amser Moses?
23. Pwy a achubodd Moses o'r afon?
24. Beth yw ystyr y gair "Moses"?
25. Ysgrifennwch y Gorchymyn cyntaf.
26. Ysgrifennwch y pennill cyntaf o'r Emyn 472, "Anian wena 'nglâs y dolydd."

SAFON III.

AMSER—AWR A HANNER.

Atebwch unrhyw 5 cwestiwn gan ofalu bod 6, 7 neu 8 yn un ohonynt.

1. (*a*) Beth oedd enw tad a mam Joseff?
   (*b*) Beth oedd ystyr breuddwydion Joseff?
   (*c*) Beth oedd cynllun Reuben i achub Joseff?
   (*d*) Sut aeth Joseff i'r Aipht?
   (*e*) Pa swydd a gafodd Joseff gan Pharo?
2. Rhowch hanes Joseff yn yr Aifft.
3. Ysgrifennwch draethawd byr ar "Moses."
4. Ysgrifennwch y Deg Gorchymyn.
5. (*a*) Am ba faint o amser y bu'r Genedl Iddewig yn yr Anialwch?
   (*b*) Pa beth a olygwn pan ddywedwn mai "llwythau crwydr" oeddynt?
   (*c*) Beth oedd y drafferth fwyaf a gafodd Moses gan yr Iddewon yn yr Anialwch?
   (*d*) Pwy roddodd y "Deg Gorchymyn" i Foses, ac ym mha le?
6. Ysgrifennwch draethawd ar "Iolo Morganwg."
7. Ysgrifennwch draethawd ar "Cymru yn amser Iolo Morganwg."
8. Ysgrifennwch unrhyw emyn o waith Iolo Morganwg.

Gohebiaeth.

AT BOBL IFANC SIR ABERTEIFI.

ANNWYL GYD-IEUENCTID—

Yr wyf am i chwi ddarllen y llythyr yma'n ofalus a meddwl am ei gynnwys yn unigol a chyda'ch gilydd.

Fe fydd gofal yr eglwysi Undodaidd yn Sir Aberteifi yn eich dwylo chwi yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Gwn na fynnech eu gweld yn cau, gwn na fynnech eu gweld yn ddi-weinidog ac o dipyn i beth yn troi yn storws margarîn neu duns llaeth y Llywodraeth. Mae hynny yn bosib—yn bosib i'r eglwys orau yn eich mysg oni atebwn yr alwad.

Felly yr wyf am ddweud gair wrthych fel Ysgrifennydd 'Undeb y Bobl Ifanc Undodaidd' yng Nghymru. Dyma ddelfrydau'r Undeb hwnnw yn fyr:

(1) I ddwyn pobl ifanc yr eglwysi Undodaidd yn nes at ei gilydd.

(2) I gymell pob aelod o'r Undeb i fod yn weithiwr brwdfrydig yn ei eglwys a'i sefydliadau.

(3) I hyrwyddo crefydd sy'n uno parch i'r gorffennol â ffydd anturiaethus yn y dyfodol.

Bu canghennau o'r Undeb yn gweithredu yn Ne-ddwyrain Cymru ers rhai blynyddoedd ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yr ydym wedi gweithio gyda'n gilydd gyda llawer o lwyddiant.

Erbyn hyn mae cangen ym mhob eglwys bron yn Sir Forgannwg, a rheiny yn cwrdd yn gyson a gweithio'n galed. Yna bedair gwaith yn y flwyddyn bydd yr aelodau o bob cangen yn cael cwrdd gyda'i gilydd yn un o'r eglwysi. Erbyn hyn mae'r aelodau yn edrych ymlaen yn eiddgar am gwrdd a'i gilydd a chyfarfod cyfeillion mewn adloniant, dadleuon a phob math o hwyl. Y mae'r aelodaeth lawn yn agored i bawb dan 35 a phob gŵr neu wraig ifanc sydd dros yr oedran.

Yn ystod yr wythnosau nesaf yma byddaf yn danfon llythyr a llenyddiaeth i egluro'r mudiad i rywun cyfrifol ymhob un o'ch eglwysi. Fy nghais yw hyn, a ofalwch chwi fod y cwestiwn yn cael ei drin yn eich capel chwi? Byddaf yn barod i ddod heibio i egluro'r mudiad yn ofalus maes o law. Gwn y bydd y rhai ohonoch a fu yng ngwersyll Llanmadog beth amser yn ôl yn gefnogwyr eiddgar. Paham na chawn wersyll Undodaidd Cymreig hefyd yr haf eleni—chwi sydd i ddewis. Os oes gan rywun eisiau rhagor o wybodaeth danfoned ataf ac fe gaiff ateb ar dro'r post.

Yn gywir,

PENRALLT, TUDOR TERRACE, ABERDÂR. D. JACOB DAFIS.

Marwgofion.

IONAWR 2, THOMAS ELIAS, Parc, Ciliau Aeron, ar ôl cystudd hir, yn 79 mlwydd oed. Ganed a maged ef yng Nglynarthen. Ar ôl pedair blynedd fel athraw addysgol yn ysgol y Bwrdd ym Mhenmorfa, Llangranog, derbyniwyd ef i Goleg Normalaidd Bangor. Daeth allan oddiyno yn y dosbarth blaenaf. Ar ôl bod yn athraw am rai misoedd mewn ysgol yn Ninbych, cynigiodd am fod yn Brif Athraw ysgol Rhydlewis. Gan fod hon yn un o ysgolion mwyaf y sir yr oedd yr ymgeiswyr amdani'n rhifo dros ddeugain. Er mor ieuanc ydoedd y pryd hwnnw dewiswyd ef i'r swydd, a bu yno hyd amser ei ymddiswyddo yn fawr ei lwyddiant fel athraw. Cyrhaeddodd llawer o'i ddisgyblion safleoedd uchel mewn gwahanol gylchoedd. Er yn weithiwr caled yn yr ysgol drwy'r flwyddyn, bu ei wasanaeth yn fawr i gylchoedd y tu allan i'r ysgol. Rhoes ei wasanaeth mwyaf, efallai, i ganiadaeth y cysegr yn eglwys Annibynnol Hawen, gerllaw Rhydlewis. Ef oedd arweinydd y gân yno, a bu'n llwyddiannus iawn i gyfrannu gwybodaeth gerddorol i ieuenctid yr eglwys am lawer o flynyddoedd. Yr oedd yn ddiacon, a bu'n ysgrifennydd yr eglwys hyd iddo ymadael oddiyno. Yr oedd o ysbryd crefyddol, ac yn addolwr cyson ar y Sul. Cyhyd ag y bu yno bu'n athraw yn yr ysgol Sul, ac y mae llawer yn ddyledus iddo heddiw am eu gwybodaeth grefyddol. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, a darllenai weithiau'r awduron gorau, y llenyddiaeth sydd a'i thuedd i goethi'r meddwl a'i gyfoethogi a syniadau aruchel. Yr oedd yn ddiwylliadol o ran meddwl ac ysbryd, ei arferion yn foesgar a'i bersonoliaeth yn fawr ac urddasol. Wedi iddo ymneilltuo o'i swydd symudodd i Giliau Aeron, ardal enedigol ei briod, un o blant y diweddar Thomas ac

Anne Evans, Tynant. Gan ei fod mor hyddysg ym materion addysg penodwyd ef yn aelod o Bwyllgor Addysg y sir ac yn un o lywodraethwyr yr Ysgol Sir yn Aberaeron. Er mai Annibynnwr ydoedd, ac iddo ddal ei berthynas ag eglwys Hawen hyd y terfyn, yr oedd yn gyson yn y gwasanaeth ar y Sul yn ein capel ni yng Nghiliau Aeron ac yn wasanaethgar gyda'r achos yno. Bydd ein colled yn fawr ar ei ôl. Claddwyd ym mynwent capel Ciliau Aeron. Pregethwyd yn y capel gan y Parchedig D. M. Davies, gweinidog Hawen, a chyflawnwyd y rhannau eraill o'r gwasanaeth gan y Parchedigion Lewis Williams, Ciliau, a T. J. Jones, rheithor Ciliau. Yr oedd Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch wrth yr organ. Yr oedd diaconiaid eglwys Hawen a chyfeillion i Mr. Elias o Glynarthen a Llandysul ac Aberystwyth yn yr angladd. Gadawodd weddw, dau fab, cefnder, nai, a dwy nith, a dwy chwaer yng nghyfraith a'u teuluoedd, a llawer o berthynasau eraill mewn galar dwys. Y mae'r ddau fab mewn safleoedd anrhydeddus.

Ionawr 2, bron heb gystudd, DAVID ISLAN, baban Glyn Edward a Mary Rees, Penbryn, Pontshan, yn ddau fis oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i rieni ieuainc, ac hyderwn y cânt brofi o'r nerth a ddaw yn ôl y dydd. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Capel y Fadfa, a gwasanaethwyd gan y Parchedig E. O. Jenkins.

Ionawr 8, ar ôl ychydig ddyddiau o gystudd, Miss ANNE JENKINS, Trecefel, gerllaw Tregaron, yn 83 mlwydd oed. Merch ieuengaf i Joseph Jenkins (Amnon yr Ail) ac Elizabeth Jenkins, Trecefel ydoedd. Mwynhaodd iechyd da ar hyd ei hoes, a bu'n nodedig o fywiog a gweithgar. Cafodd fwy o addysg na'r cyffredin. Ar ôl gorffen yn yr ysgol elfennol yn Nhregaron, aeth i ysgol uwch yn Hwlffordd. Bu hefyd am gwrs yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth. Cynysgaeddwyd hi â gallu meddwl cryf, a chan iddi gael manteision addysgol yr oedd yn ddeallus iawn. Meddai ar y ddawn i'w mynegu ei hun, a diddorol ydoedd gwrando arni'n traethu ar wahanol faterion. Yr oedd hefyd o natur garedig, ac y mae ei chymwynasau'n lluosog. Bu'n amlwg yn y sir, yn ysgrifennydd Cyngor Plwyf Tregaron am hanner can mlynedd, yn un o lywodraethwyr yr Ysgol Sir yn Nhregaron. Yn fawr ei sel gyda dirwest, bu'n ysgrifennydd adran Tregaron o Gymdeithas Ddirwestol Merched Prydain, ac etholwyd hi droeon i gynrychioli'r adran yn y cynadleddau blynyddol. Bu yn Sheffield a Llundain, a chaed ganddi adroddiad cyflawn o weithrediadau'r gynhadledd ar ôl dychwelyd. Hanoedd o linach Dafis Castell Hywel a Cherngoch, ac ymfalchïai yn hynny. Yr oedd yn aelod o gapel Ciliau Aeron, ac y mae ei henw ar un o gerrig sylfaen y capel. Gadawodd un brawd, sef Dr. J. Jenkins, Y Bryn, Llanybydder, ac amryw o neiaint a pherthynasau eraill mewn hiraeth. Gosodwyd ei gweddillion ym mynwent Capel y Groes. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Lewis Williams, Ciliau Aeron, a chynorthwywyd gan y Parchedigion Heber Alun Evans, Llangeitho ; D. T. Jones, Ficer Tregaron ; David Jones, Maesffynnon ; S. E. Bowen, Galltyblaca, a T. O. Williams, M.A., Brondeifi. Yr oedd y Parchedigion D. Evans, Cwmiago, ac E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul yn yr angladd. Chwaraewyd yr organ gan Miss Bowen, Galltyblaca.

Nodion yr Eglwysi.

TREBANOS.—Trefnir cyfarfod i ddadorchuddio dau faen coffa yng Nghapel y Graig ar ddydd Sul, Chwefror 29, am 7.30 o'r gloch. Coffheir ar un ohonynt y ddau aelod a gollodd eu bywydau yn y rhyfel diwethaf. Coffheir ar y llall y Parchedig D. G. Rees a fu'n weinidog Gellionnen a'r Graig o 1912 hyd 1930.

Bu adeg y Nadolig a dechrau'r flwyddyn yn un lled ddyfal am gyfarfodydd. Rhagfyr 23 cafwyd cyngerdd o ddramau gan Gymdeithas y Bobl Ifainc a phlant yr Ysgol Sul. Rhagfyr 24 cafwyd Sosial Nadolig Cymdeithas y Bobl Ifainc. Bore dydd Nadolig cynhaliwyd cwrdd gweddi. Rhagfyr 31 cafwyd Sosial, neu'n fwy cywir Swper, Cymdeithas y Chwiorydd. Ionor 3 mwynhaodd deiliaid yr Ysgol Sul eu tê blynyddol, a diweddwyd y wledd mewn cyngerdd hwylus. Ionor 18 yn oedfa'r hwyr gwrandawyd ar adrodd a chanu'r plant, a rhoddwyd tystysgrifau'r arholiad i'r rhai a fu'n llwyddiannus.

CYWIRIADAU.—Rhifyn Ionawr, tud. 10 ; am 'Haldore' darllenner 'Haldane' ; ar ôl y pennill, 'Ail-fywyd . . .' doder enw'r awdur,—Mathew Arnold.

CAPEL Y FADFA.—Cafwyd gwledd o dê a choeden Nadolig nos Wener, Ionawr 2. Er garwed yr hin, daeth tyrfa fawr o blant a'u rhieni ac eraill ynghyd, a chafwyd noson ddymunol i'r eithaf. Gofalodd y chwiorydd am ddigon o bethau blasus i'r byrddau. Wedi hynny cafwyd rhaglen o adrodd a chanu a rhannu gwobrwyon i'r plant, gyda Mr. Evan Davies, Woodlands, yn Dad Nadolig. Arweiniwyd y cyfarfod gan Mr. John Davies, Pledrog, ac E. Lloyd Jones, Pantybryn, a chafwyd hwyl fawr drwy'r amser.

CYMANFA GANU MORGANNWG.—Cynhelir y Gymanfa eleni eto yng Nghapel y Graig, Trebanos, ar ddydd Llun y Pasg (Mawrth 29). Defnyddir yr un rhaglen ag a wneir yng Nghymanfa Ceredigion, a gobeithir gweld llawer o garwyr y Gymanfa o Geredigion yn bresennol. Bydd eu cwmni'n help ac yn ysbrydiaeth. Bydd Mr. John Thomas, Aberdâr, yn arwain, a chenir yr anthem, "Gair ein Duw ni" (T. Hopkin Evans).

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gynulleidfa ar ôl gwasanaeth y bore ar y Sul cyntaf o Chwefror. Cymrwyd y gadair fel arfer 'nawr gan Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. Cafwyd cwrdd hwylus iawn a phasiwyd adroddiad y pwyllgor a chyfrifon y trysorydd yn unfrydol. 'Roedd y ddau yn eithaf calonogol, yr olaf yn enwedig felly. Ail-etholwyd y swyddogion ac hefyd aelodau'r pwyllgor. Fel arfer hefyd talwyd diolchiadau cynnes i bawb a oedd wedi ein cynorthwyo mewn unrhyw fodd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Wedi colli ohonom ein gweinidog ddiwedd Ebrill diwethaf 'rydym yn gorfod dibynnu ar ein adnoddau ein hunain yn y mater o bregethwyr. Yn ffodus mae yma amryw sydd yn gallu cymryd y gwasanaeth i foddhad cyffredinol. Y pregethwr ar y Sul uchod oedd Mr. Islwyn ap Nicholas, mab "Nicholas y Glais." Mae ef wedi pregethu inni amryw weithiau yn barod ac yn debyg o wneud hynny lawer gwaith eto, a rhydd ei wasanaeth fodlonrwydd cyffredinol.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.